Cynllun Strategol 2026 - 2029

Trosolwg

Addysg Oedolion Cymru (AOC) yw'r sefydliad cenedlaethol dros Ddysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru, ac mae'n cynnig cwricwlwm cynhwysfawr sy'n cwmpasu cyfleoedd dysgu sy'n amrywio o'r Lefel Cyn-mynediad i gymwysterau ar Lefel 4. Mae ein rhaglenni yn ymdrin â sgiliau hanfodol ym meysydd llythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol a Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), yn ogystal â chymwysterau mewn meysydd megis Astudiaethau Undebau Llafur, Gwaith Ieuenctid, Addysg a Hyfforddiant, a Chwnsela. Rydym hefyd yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau sy'n galluogi dysgwyr i feithrin sgiliau ymarferol ym meysydd iechyd a diogelwch, gwaith llaw, crefftwaith a llesiant, ac maent yn berthnasol i leoliadau personol a phroffesiynol. Trwy gydweithredu â'r sector gwirfoddol, diwydiant a chyflogwyr, rydym yn helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd a bywyd, gan greu llwybrau tuag at gyflogaeth, twf personol ac ymgysylltu â'r gymuned. I lawer o oedolion, mae AOC yn cynnig cam cyntaf cynhwysol a hyblyg i ailafael mewn dysgu strwythuredig, ac mae'n cynnig cymorth hanfodol i oresgyn rhwystrau megis ynysigrwydd cymdeithasol, heriau o ran iechyd meddwl, a diweithdra.

Yn ogystal â bod yn Sefydliad Addysg Bellach Dynodedig, mae AOC yn sefydliad aelodaeth sy'n ymrwymo i feithrin ymdeimlad cyffredin o ddiben a pherthyn, gan alluogi dysgwyr, tiwtoriaid a phartneriaid gyda'i gilydd i lywio dyfodol dysgu gydol oes yng Nghymru. Mae ein hymrwymiad i gyfleoedd dysgu rhagorol sy'n hygyrch ac yn ystyrlon yn sicrhau ein bod ni'n diwallu anghenion amrywiol dysgwyr sy'n oedolion ledled Cymru. Rydym yn meithrin diwylliant sy'n rhoi pwyslais ar ymdeimlad o berthyn, tegwch a chynhwysiant, a byddwn yn grymuso pobl i lwyddo a chyflawni trwy greu amgylchedd diogel a chroesawgar i bawb. Trwy gydweithio'n agos â sefydliadau cymunedol, undebau llafur a chyflogwyr, byddwn yn grymuso dysgwyr i ddatblygu sgiliau ymarferol sy'n ymwneud â gyrfaoedd a chyflawni cymwysterau cydnabyddedig ar bob lefel. Mae'r cyrsiau a addysgir gan ein tiwtoriaid medrus, ynghyd â'r cymorth dysgu ychwanegol sydd ar gael, yn cynorthwyo i wella cyflogadwyedd dysgwyr ac maent hefyd yn ysgogi arloesi, creadigrwydd, sgiliau crefftau a llesiant, gan alluogi dysgwyr i wneud cynnydd trwy ddulliau personol â phroffesiynol, mewn modd sy'n cyd-fynd â'u cyd-destunau a'u hanghenion.

http://www.addysgoedolion.cymru/

Gweledigaeth

Trawsnewid bywydau a chymunedau drwy ddysgu gydol oes o ansawdd uchel sy'n hygyrch ac yn gynhwysol — gan rymuso pobl i lunio eu dyfodol, cryfhau eu cymunedau a chyfrannu at Gymru sy'n deg, yn hyderus ac yn gynaliadwy.

Cynllun Strategol 2026 - 2029

Cenhadaeth

Creu cyfleoedd dysgu rhagorol sy'n meithrin sgiliau, hyder a phwrpas.

Drwy gydweithio, cynhwysiant a chymorth, rydym yn helpu pobl i oresgyn rhwystrau, cyflawni eu nodau a gwireddu eu potensial — gan alluogi cymunedau cryfach a mwy gwydn ble caiff dysgu gydol oes ei werthfawrogi a'i rannu.

Gwerthoedd Craidd

- Cynhwysiant, Tegwch a Thosturi – sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei groesawu, ei gynorthwyo a'i werthfawrogi.
- **Rhagoriaeth o ran Addysgu a Dysgu** – ymdrechu am y safonau uchaf un ym mhopeth a wnawn.
- **Cydweithio a Chymuned** – gweithio gyda'n gilydd er mwyn sicrhau effaith ar y cyd.
- **Lles a Diogelu** – blaenoriaethu diogelwch, perthyn a pharch.
- **Arloesi a'r Gallu i Addasu** – croesawu newid ac atebion creadigol.
- **Grymuso a Thrawsnewid** – galluogi pobl a chymunedau i gyflawni eu potensial.
- **Cynaliadwyedd a Chyfrifoldeb** – gweithredu'n foesegol a diogelu ein dyfodol cyffredin.

Cynllun Strategol 2026 - 2029

Nodau Strategol 2026–2029

Nod 1: Addysgu a Dysgu – Cynorthwyo Dysgwyr i Ddatblygu Gwybodaeth, Sgiliau ac Agweddau, a sicrhau Ansawdd y Profiadau Dysgu

Byddwn yn:

1.1 Datblygu cwricwlwm cynhwysfawr sy'n datblygu ystod o sgiliau ac sy'n cynorthwyo i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg pan fo hynny'n berthnasol.
1.2 Sicrhau bod cyrsiau yn ymdrin â chymwyseddau allweddol megis llythrennedd, rhifedd, sgiliau digidol, sgiliau galwedigaethol ymarferol a chyflogadwyedd.
1.3 Integreiddio gweithgareddau sy'n gwella sgiliau galw i gof, meddwl yn greadigol a rhoi gwybodaeth ar waith mewn senarios yn y byd go iawn.
1.4 Meithrin amgylchedd dysgu buddiol ac atyniadol ble bydd dysgwyr yn teimlo'n gryf eu cymhelliant ac yn hyderus, gan gynnwys gweithgareddau sy'n hybu cadernid, hunanymwybyddiaeth a chydweithredu.
1.5 Annog cyfranogi gweithgar, ymchwilio annibynnol, a rhyngweithio adeiladol rhwng cymheiriaid.
1.6 Sicrhau bod staff addysgu yn defnyddio addysgeg oedolion effeithiol ac arferion asesu cynhwyso, gan addasu yn unol â nodau a chefndiroedd dysgwyr.
1.7 Cynnig adborth strwythuredig rheolaidd sy'n galluogi dysgwyr i ddeall eu cynnydd, pennu nodau personol, a chynllunio eu camau nesaf.
1.8 Sicrhau bod staff addysgu yn ymgorffori ystod o themâu trawsbynciol yn ôl yr angen, gan gynnwys sgiliau digidol, sgiliau hanfodol, Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF), Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI), iechyd a lles, a'r Gymraeg a'i dimensiwn.

Erbyn 2029…

- Bydd Addysg Oedolion Cymru yn cael ei gydnabod ar y lefel genedlaethol fel arloeswr blaenllaw ym maes dysgu oedolion a'r gymuned — gan lywio arferion ledled Cymru a thu hwnt.
- Bydd dysgwyr yn profi dysgu trawsnewidiol sy'n meithrin hyder a sgiliau ac yn cyfrannu at les economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

- Bydd cynllunio'r cwricwlwm yn rhagweld anghenion sgiliau sy'n dod i'r amlwg, gan gyfuno perthnasedd cymunedol â chynnwys sy'n canolbwyntio ar y dyfodol.
- Bydd addysgu'n amlygu rhagoriaeth, dulliau sy'n seiliedig ar ymchwil a chreadigrwydd yn gyson mewn darpariaeth ddwyieithog, a bydd AOC yn cyfrannu tystiolaeth ac enghreifftiau at bolisïau cenedlaethol, gwaith thematig Estyn a rhwydweithiau ymarferwyr.

Cynllun Strategol 2026 - 2029

Nod 2: Cynorthwyo i gynnal llesiant dysgwyr, eu datblygiad personol a'u diogelu

Byddwn yn:

2.1 Cynnig gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant meddyliol, gan gynnwys cwnsela, gweithdai llesiant, a phartneriaethau ag asiantaethau cymorth lleol.
2.2 Annog hunanymwybyddiaeth, hyder a chadernid trwy gyfrwng gweithgareddau strwythuredig ac adnoddau datblygiad personol.
2.3 Cynnig cymorth wedi'u teilwra ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion penodol neu rai sy'n wynebu rhwystrau penodol, gan sicrhau mynediad at adnoddau sy'n ysgogi llwyddiant.
2.4 Cydweithredu ag asiantaethau allanol i gynorthwyo dysgwyr sy'n wynebu heriau yn ymwneud â llesiant corfforol, meddyliol neu gymdeithasol.
2.5 Gweithredu canllawiau cynhwysfawr ynghylch diogelu ar gyfer yr holl staff a'r holl ddysgwyr er mwyn sicrhau diogelwch ac ymwybyddiaeth o ymddygiad priodol.
2.6 Sefydlu polisïau ac arferion eglur i fynd i'r afael â gwahaniaethu, bwlio, aflonyddu ac ymddygiadau anniogel, a'u hatal.
2.7 Cynnig canllawiau ynghylch defnyddio technoleg ddigidol yn gyfrifol i bob aelod o'r staff a bod dysgwr sy'n ymwneud â dysgu ar-lein a darparu sgiliau digidol.

Erbyn 2029…

- Bydd Addysg Oedolion Cymru yn gosod y meincnod yng Nghymru ar gyfer llesiant a chynhwysiant sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. Bydd pob dysgwyr yn gallu cael cymorth rhagweithiol wedi'i deilwra drwy fodel gwasanaethau dysgwyr integredig sy'n cysylltu addysgu, canllawiau a llwybrau cynnydd.
- Bydd llesiant, cynhwysiant a diogelu yn cael eu cydnabod yn allanol fel arferion canmoladwy, a bydd AOC yn dylanwadu ar bolisïau a hyfforddiant ar draws y sector.
- Bydd dysgwyr yn disgrifio AOC fel cymuned ddiogel a grymusol sy'n eu galluogi i newid cyfeiriad, cysylltu ag eraill a symud yn hyderus i gyfleoedd dysgu pellach, gwaith neu arweinyddiaeth mewn cymunedau.

Cynllun Strategol 2026 - 2029

Nod 3: Sicrhau arweinyddiaeth, cyfarwyddyd strategol a datblygiad proffesiynol effeithiol

Byddwn yn:

3.1 Sicrhau bod blaenoriaethau strategol yn cyd-fynd â nodau addysg ac anghenion y gweithlu ar y lefel genedlaethol, gan gynnwys rhanddeiliaid yn y gwaith o bennu amcanion sy'n blaenoriaethu llwyddiant dysgwyr ac effaith yn lleol.
3.2 Ymgysylltu â staff a'u cynrychiolwyr, drwy bartneriaeth gymdeithasol a sianeli eraill, i lunio polisïau ac arferion sy'n gwella profiadau dysgu a gwaith ac yn cryfhau perthnasoedd ac ymgysylltu ar draws y sefydliad.
3.3 Datblygu a gweledigaeth eglur ar gyfer y sefydliad a'i chyfleu, gan ategu hynny â phrotocolau sy'n llywio ymdrechion cydweithredol.
3.4 Cyflawni cylchoedd hunanwerthuso blynyddol, a chael adborth gan ddysgwyr, staff a rhanddeiliaid lywio cynlluniau gwella ymarferol.
3.5 Blaenoriaethau camau gwella ar sail deilliannau mesuradwy, gan sicrhau bod hynny'n cyd-fynd â meysydd arolygu Estyn.
3.6 Cynllunio ac adolygu rhaglenni yn flynyddol i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion lleol, gan sicrhau bod cyfleoedd dysgu hyblyg ar gael mewn adeiladau ac ar-lein.
3.7 Buddsoddi mewn cyfleoedd dysgu a datblygiad proffesiynol ar gyfer yr holl staff, gan ganolbwyntio ar effeithiolrwydd yr addysgu, cynhwysiant, ac ymgysylltu â dysgwyr.
3.8 Meithrin diwylliant sy'n rhoi pwyslais ar dwf proffesiynol a rhannu gwybodaeth, gan annog staff i gydweithredu i ddatblygu arferion gorau a dulliau arloesol.
3.9 Sicrhau iechyd ariannol hirdymor y sefydliad drwy gynhyrchu incwm amrywiol, defnyddio adnoddau'n effeithlon, a chynllunio ariannol rhagweithiol.
3.10 Datblygu a gwreiddio cynllun ymateb ynghylch rheoli argyfyngau a pharhad y busnes, gan sicrhau parodrwydd trwy ymwybyddiaeth staff a phrofion.

Erbyn 2029…

- Bydd Addysg Oedolion Cymru yn enghraifft ganmoladwy o arweinyddiaeth strategol a llywodraethu da yn y sectorau gwirfoddol ac ôl-16.

- Bydd y sefydliad yn gryf yn ariannol, yn hyblyg ac yn cael ei ysgogi gan effaith — yn adnabyddus am droi bwriad strategol yn werth cymdeithasol, economaidd, dysgu a chymunedol mesuradwy a fydd yn cyflawni buddion gwirioneddol i unigolion a chymunedau ledled Cymru.
- Drwy bartneriaeth ac eiriol pwrpasol, bydd AOC yn helpu i lunio'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer dysgu oedolion a'r gymuned o dan Medr, gan ymgorffori rôl y sector gwirfoddol mewn penderfyniadau yn ymwneud â pholisïau a chyllido.
- Bydd staff ar bob lefel yn amlygu arweinyddiaeth ar waith: byddant yn hyderus, yn gydweithredol ac yn ymrwymo i ddysgu parhaus, cydraddoldeb ac arloesi.
- Yn allanol, bydd AOC yn cael ei gydnabod fel dylanwad cenedlaethol ar strategaeth dysgu oedolion, datblygu'r gweithlu ac arferion yn ymwneud â phartneriaethau cymdeithasol.

Monitro a Gwerthuso

Bydd cynnydd tuag at y cynllun hwn yn cael ei fonitro drwy Fframwaith Atebolrwydd yr Uwch Dîm Rheoli (2026–2029), sy'n nodi mesurau CAMPUS ar gyfer perfformiad ar y cyd a pherfformiad unigolion ar draws cyflawni, ansawdd, cyllid, cydymffurfiaeth, gwydnwch, pobl, dylanwad a gweledigedd.

Bydd perfformiad yn cael ei adolygu drwy:

- Ddangosfyrddau a lunnir bob tymor gan yr Uwch Dîm Rheoli yn olrhain cynnydd tuag at dargedau strategol.
- Adroddiad Hunanwerthuso (SER) a Chynllun Datblygu Ansawdd (QDP) Blynyddol.
- Y Cyngor yn goruchwylio o berfformiad, risgiau, pobl ac iechyd ariannol.
- Adborth gan randdeiliaid a dysgwyr, gan sicrhau bod lleisiau dysgwyr a phartneriaid yn dal yn allweddol o ran sicrhau gwelliannau.